DRAFT

**Cofnodion Cyfarfod Pwyllgor Ymgynghorol Defnyddwyr Harbwr ABERYSTWYTH a gynhaliwyd drwy fideo-gynadledda nos Iau, 28 Mai 2026**

**Ar ran Cyngor Sir Ceredigion:** Cynghorydd Shelley Childs (Cadeirydd), Cynghorydd Elizabeth Evans

**Swyddogion yn bresennol:** Ellie Waters, Robyn Beresford a Dana Jones

**Defnyddwyr yr Harbwr:** Chris Seal, Martin Wood, Steve Webb

(7.00pm – 7:15pm)

**1. Ymddiheuriadau**
Dim.

**2. Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2025**
CYTUNWYD i gadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 30 Hydref 2025 yn gywir.

**Materion yn codi**
Dim

**3 Diweddariad gan Wasanaeth yr Harbyrau**
Cyflwynodd Ellie Walters ei hun fel y Rheolwr Corfforaethol ar gyfer Cynaliadwyedd a Thrafnidiaeth.

O ran staffio, dywedodd fod un cynorthwy-ydd tymhorol yn dychwelyd ac y bydd un arall yn dechrau ym Mehefin, yn dibynnu ar wiriadau.

Nododd y Pwyllgor fod archwiliad y Côd Diogelwch mewn Porthladd *(Port Marine Safety Code)* wedi'i gynnal ac wedi canfod bod y gwasanaeth yn cydymffurfio gan mwyaf. Roedd un achos o ddiffyg cydymffurfio yn weddill, mewn perthynas â sut i ymateb i olew yn arllwys, ac roedd hyn yn cael sylw drwy ddatblygu polisi a hyfforddi swyddogion ac Aelodau Cabinet.

Nodwyd bod gwaith carthu wedi dechrau ar 6 Mawrth a bod gwaith ar y pontŵn ar fin dod i ben, gydag un fflôt yn weddill sydd angen ei gosod. Roedd arwyddion newydd yn cael eu paratoi i atgyfnerthu diogelwch gwaith, gan gynnwys rhybuddion am y llanw.

**4 Rhestr Aros ddiwygiedig Angorfeydd**
Rhoddwyd gwybod i'r aelodau fod saith cwch ar restr aros hamdden Aberystwyth, ac nad oedd rhestr aros masnachol. Roedd symudiadau'r cychod tymhorol yn mynd rhagddynt, a'r rhan fwyaf o gychod wedi dychwelyd i'w hangorfeydd.

Cododd y Pwyllgor bryderon parhaus ynglŷn â mân-ddarnau ym mwlch yr harbwr, a bod hen fast yno sydd angen ei dynnu ymaith. Adroddwyd bod gwaith

ar y gweill i fynd i'r afael â'r materion hyn, gan gynnwys ymgysylltu â'r swyddogion perthnasol.

Nodwyd bod Dŵr Cymru wedi cytuno i gynnal cyfarfod cyhoeddus ynghylch pryderon am garthffosiaeth yn yr harbwr a Thraeth y De. Gofynnwyd am i Aelodau'r Pwyllgor gael gwahoddiad i'r cyfarfod.

**5. Cynnal a Chadw Cyffredinol a Glendid**

Dim byd ychwanegol i'w adrodd.

**6. Materion a godwyd gan Ddefnyddwyr yr Harbwr**

Adroddodd y Cadeirydd fod grŵp beicio cymunedol lleol yn ystyried opsiynau i symud o'r harbwr oherwydd yr effaith amgylcheddol ar eu hoffer.

Cadarnhawyd y byddai cofnodion cyfarfodydd yn cael eu cyhoeddi'n fwy prydlon o hyn ymlaen.

DRAFT